SWYDD FEWNOL/ALLANOL: DARLITHYDD MEWN AMGYLCHEDD ADEILEDIG Peidiwch â chynnwys CV. Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd i jobs@cymoedd.ac.uk			
CWMNI	**COLEG Y CYMOEDD**	**DYDDIAD MAE'R HYSBYSEB YN FYW**	**05/01/2022**
SWYDD	**DARLITHYDD MEWN AMGYLCHEDD ADEILEDIG**	**ORIAU/HYD**	**6-24 awr addysgu'r wythnos (mae 24 awr yn llawn amser, oriau yn agored i drafodaeth) RHAN AMSER/LLAWN AMSER/PARHAOL**
CYFLOG	**ASESIR Y CYFLOG YN ÔL CYMWYSTERAU A PHROFIAD**	**LLEOLIAD**	**CAMPWS NANTGARW (OND EFALLAI BYDD GOFYN GWEITHIO AR GAMPWS ABERDÂR, NANTGARW A RHONDDA)**
DYDDIAD/AMSER CAU	**19/01/2022 12:00PM CANOL DYDD (NI FYDD CEISIADAU A DDERBYNNIR AR ÔL CANOL DYDD YN CAEL EU HYSTYRIED)**	**DYDDIAD CYFWELD**	**I'W GADARNHAU**

Os ydych chi'n gallu ysgogi eich hunan, yn mwynhau helpu eraill a bod gennych sgiliau rhyngbersonol cryf, yna mae gennych chi'r hyn sydd ei angen i fod yn Ddarlithydd yng Ngholeg y Cymoedd. Dyma gyfle gwych i weithio i gwmni sefydledig sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniad, sy'n cefnogi eich datblygiad personol, ac sy'n eich herio i wneud eich gorau ar gyfer ein dysgwyr.

Y SWYDD

Rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol brwdfrydig i ddatblygu ein cwricwlwm BTEC lefel 3 a HNC cyfredol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig.

Yn ddelfrydol byddai gennych brofiad o weithio neu addysgu yn un o'r meysydd canlynol.

- Technoleg bensaernïol, syrfeo adeiladau.
- Peirianneg sifil, syrfeo safleoedd a gosod seiliau.
- Rheoli safle, syrfeo meintiau.

Nid yw cymwysterau addysgu ffurfiol yn hanfodol. Fel gweithiwr coleg byddwch yn cael y cyfleoedd i ddatblygu cymwysterau addysgu priodol.

Y CWMNI

Mae'n gyfnod cyffrous iawn i Goleg y Cymoedd – mae canlyniadau i ddysgwyr wedi gwella'n sylweddol, gydag arfer sy'n arwain y sector mewn rhai ysgolion, a rhaglenni academaidd a galwedigaethol yn cael canlyniadau sy'n gyson â chymaryddion cenedlaethol. Rydyn ni wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ystâd, gyda dau gampws newydd yn Aberdâr a Nantgarw a nifer o ganolfannau rhagoriaeth sy'n benodol i'r diwydiant a gefnogir gan ystod o gyflogwyr proffil uchel.

BETH RYDYN NI'N EI GYNNIG

Mae'r Coleg yn cynnig ystod o fuddion llesiant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, er mwyn cydnabod a gwobrwyo'r cyfraniad hollbwysig mae ein staff yn ei wneud i'n llwyddiant a'n twf. I enwi ond rhai, bydd gennych fynediad at:

- **Gynlluniau pensiwn cyflog terfynol**
- **Parcio am ddim ar y safle ar bob un o'n campysau**
- **Pris gostyngol ar aelodaeth hamdden**
- **Rhaglen Cymorth i Weithwyr**
- **Gwyliau blynyddol hael**
- **Polisïau sy'n hwyluso bywyd teuluol**
- **Mynediad at gysylltiad di-wifr a Microsoft Office 365 am ddim**
- **Gwobrau cydnabod staff**
- **Cyfleoedd i ddatblygu**

PAM DDYLECH CHI YMGEISIO

- **Cyflog cystadleuol**
- **Canolfannau rhagoriaeth penodol i'r diwydiant**
- **Coleg a thîm sydd wedi ennill gwobrau**
- **Pecyn buddion cystadleuol iawn**
- **Cyfleoedd gwych ar gyfer twf a datblygiad**

AMSERLEN RECRIWTIO

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 19 Ionawr 2022 am 12:00PM canol dydd (bydd ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael gwybod ar 28 Ionawr 2022). **Os na fyddwch chi wedi clywed gan y Coleg erbyn 28 Ionawr 2021 Rhagfyr 2022, dylech gymryd bod eich cais wedi bod yn aflwyddiannus y tro hwn.**

Os ydych chi wedi cyrraedd y rhestr fer, ac yr hoffech i'ch cyfweliad gael ei gynnal yn Gymraeg, cysylltwch â jobs@cymoedd.ac.uk

Noder: Fel arfer, byddai'r Coleg yn ceisio geirdaon cyn i'r ymgeiswyr gael eu gwahodd i gyfweliad.

SUT I WNEUD CAIS
Llenwch bob rhan o'r ffurflen gais a'i dychwelyd i **jobs@cymoedd.ac.uk**
Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r **Disgrifiad Swydd** a **Manyleb yr Unigolyn** i egluro sut mae eich sgiliau, eich profiad a'ch nodweddion yn eich gwneud chi'n addas ar gyfer y swydd. Mae angen hanes cyflogaeth llawn, gan gynnwys manylion am unrhyw fylchau mewn cyflogaeth. **Peidiwch â chynnwys CV.**

Os hoffech bostio'r cais yn lle ei e-bostio, anfonwch eich cais at:
Yr Adran Adnoddau Dynol,
Coleg y Cymoedd,
Campws y Rhondda,
Llwynypia,
Tonypandy,
Rhondda Cynon Taf
CF40 2TQ

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd hon cysylltwch â Stephen Ward i trefnu amser cyfleus i siariad.
stephen.ward@cymoedd.ac.uk

happy to talk flexible working

Rydyn ni'n hapus i ystyried trefniant rhannu swydd neu oriau cywasgedig ar gyfer y swydd hon.

I gael rhagor o wybodaeth am y Coleg, ewch i'n **Gwefan**, **Facebook**, **Twitter**, **Instagram** a **LinkedIn**.

HAWL I WEITHIO YN Y DEYRNAS UNEDIG
Mae Adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae eu statws mewnfudo yn eu hatal rhag gweithio. Os cewch eich gwahodd am gyfweliad, bydd gofyn i chi ddangos tystiolaeth ddogfennol gyfredol a gwreiddiol o'ch hawl i weithio ym Mhrydain.
DIOGELU DATA
Bydd unrhyw ddata amdanoch chi'n cael ei ddal yn ddiogel, a bydd mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n ymdrin â'ch cais yn ystod y broses ddethol. Drwy lofnodi a chyflwyno eich ffurflen gais, rydych chi'n rhoi caniatâd i'ch data gael ei brosesu.
EUOGFARNAU TROSEDDOL
Mae pob sefydliad addysgol yn y Deyrnas Unedig wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r Coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi darfod neu heb ddarfod ar eu ffurflen gais ac wrth gwblhau'r ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gallai methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Bydd unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr, neu'n dod i gysylltiad â nhw, yn destun gwiriad rhestr 99 hefyd, a bydd yn rhaid i'r Coleg dderbyn y gwiriad cyn gallu dechrau cyflogaeth.
CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH
Rydyn ni'n cydnabod manteision gweithle amrywiol – rydyn ni'n ystyried ein bod ni'n gyflogwr o ddewis, ac rydyn ni'n ymroddedig i gael gwared â gwahaniaethu yn y gweithle.
GOFYNION ARBENNIG
Os oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol er mwyn eich galluogi i wneud cais am y swydd hon, neu i gymryd rhan yn y broses gyfweld, cysylltwch â **jobs@cymoedd.ac.uk**